# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Hannah Mefin**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygnor a gynhaliwyd hybrid yng Nghanolfan Cefnfaes ac yn rhithiol dros Zoom
**Nos Fercher 16 o Orffenaf 2025 am 19:00**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Catrin Wager

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Michael Williams

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

O dan Eitem 4.2 – Cynllun Bioamrywiaeth, datganodd y Cynghorydd Catrin Wager fuddiant personol gan ei bod yn gweithio fel mentor i Egin.

O dan Eitem 8.3 – Dyffryn Ogwen: Cais am Rhodd Ysgoloriaeth Cyngor Cymuned Bethesda, datganodd Paul Rowlinson fuddiant personol fel aelod o gorff llywodraethol Ysgol Dyffryn Ogwen.

**1.** Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cynghorydd Catrin Wager

**Ymddiheuriadau** – Y Cynghorwyr Einir Williams, Huw Jones, Dyfrig Jones, Linda Jones

**2. Materion Brys:**

**Gordfyfiant:** Derbyniwyd cwynion am gordyfiant ar lwybrau Pont Uchaf, Groeslon Pant a Gerlan. Cafodd y gwaith ei gwblhau yr wythnos ddiwethaf gan Colin Jackson, ac fe'i gwnaed yn dda. Aeth Barry, Swyddog Cynnal Partneriaeth Ogwen, i wirio a thorri rhai coed ym Mhont Uchaf. Mae'r llwybrau bellach yn glir. Gofynnir i'r Clerc basio ymlaen ddiolch y cyngor i Colin Jackson.

3. **Cofnodion**
   Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 o Fehefin 2025

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion**

**4.1 Llwybr y Llaw Feddyg, Parc Meurig -** Bydd y clerc yn ceisio cysylltu â Dafydd Cadwaladr am y les newydd cyn gynted â phosibl, gan roi blaenoriaeth i hyn dros yr haf.

**4.2 Cynllun Bioamrywiaeth**: Mae yna newidiadau staff yn Egin ar hyn o bryd, felly mae Cynghorydd Catrin Wager yn awgrymu oedi cyn cysylltu ag Egin ynglŷn â'r cynllun mentora tan o leiaf Medi – ar y gweill.

**4.3 Cysgodfan Bws ger Maes Bleddyn -** Adroddwyd i'r cyngor cymuned gan y clerc am Gronfa Gwynedd Ni, gronfa ar gyfer cynghorau cymuned yn benodol. Awgrymwyd defnyddio'r gronfa hon ar gyfer prynu'r cysgodfan bws. Awgrymwyd Cyngor Gwynedd cysylltu â Chyngor Cymuned Waunfawr ynghylch cysgodfan bws sbâr sydd ganddynt, ond nid oedd hyn yn arwain i unrhyw ddatblygiad. Penderfynodd y Cyngor Cymuned mai'r syniad gorau oedd gwneud cais i'r cronfa yma. Bydd y clerc yn gweithredu ar hyn.

**4.4 Parcio Stryd Fawr –** Derbyniodd y clerc ymateb gan Cyngor Gwynedd ynghylch cais i wneud maes parcio Cae Star yn rhad i'r trigolion lleol oherwydd anawsterau parcio ar y Stryd Fawr a'r llinellau melyn dwbl. Roedd ymateb pendant gan Cyngor Gwynedd, gan nodi bod yr incwm o'r maes parcio'n cael ei ddefnyddio i gefnogi'r economi leol. Mae'r gwaith adnewyddu llinellau melyn i fod i ddechrau canol mis Gorffennaf.

**4.5 Cynnig Cyngor Cymuned Ariannu Mwy o finiau Ailgylchu (Stryd Fawr):** Nid yw'r clerc wedi cymryd unrhyw gamau ar hyn ar hyn o bryd; bydd yn weithredu ar hyn dros yr haf.

**4.6 Ymghyngoriad Llywodraeth Cymru: Diwygio'r Dreth Cyngor**: Cadarnhawyd fod y clerc wedi ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

**4.7 Mater Diogelwch Ffyrdd, Gerlan -** Mae brwgaig (coed) yn disgyn dros y lôn i fyny i Gerlan o Groeslon Pant i fyny. Mae ceir yn gorfod symud i ganol y lôn i osgoi ceir gael eu grafu. Y Clerc i adrodd hyn i Cyngor Gwynedd.

**4.8 Capel Jerusalem – Ystyriaeth o Gais am Gymorth Ariannol**

Mae Capel Jerusalem yn dymuno cymorth ariannol at gostau cynnal a chadw. Awgrymwyd i'r clerc anfon y ffurflenni perthnasol at Y cynghorydd Walter Williams er mwyn iddynt gyflwyno cais am rodd.

**5. Archwiliad Mewnol: Camau nesaf i liniaru'r materion a gwella prosesau mewnol:**

**5.1 Diffyg gwahanu dyletswyddau wrth greu a phrosesu taliadau ar lein**

Mae'r Clerc yn derbyn ac yn prosesu taliadau, gyda rhestr o'r taliadau yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor cyn iddynt gael eu talu. Er nad yw'r dyletswyddau'n cael eu gwahanu'n llwyr, mae'r broses bresennol yn sicrhau tryloywder. Bydd y Cyngor yn ystyried gwelliannau posibl, megis cyflwyno dilysu dwy gam ("two-step verification") gan y banc, neu'r posibilrwydd o ofyn i aelod o staff o fewn Partneriaeth Ogwen wirio'r taliadau.

**5.2 Methiant i gadarnhau bod raddfa cyflog y Gofalwr wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor.**

Cadarnhaodd y Cyngor fod y raddfa gyflog wedi'i chynyddu yn unol â'r cynnydd mewn chwyddiant.

**5.3 Methiant i gynnwys manylion cyflawn y gofrestr asedau h.y. y dyddiad ddaeth yr ased i feddiant y Cyngor, gwerth cyfredol yr asedau, gwerth pan fe'u cafwyd a'u lleoliad.**

- Penderfynwyd creu is-bwyllgor, gydag un aelod o bob ward (Gerlan, Canol, Rachub), i adolygu'r gofrestr asedau.

Pwynt gweithredu:
Bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod yr is-bwyllgor ar ôl yr Haf, yn creu taflen Google er mwyn i'r aelodau ychwanegu manylion, ac yn archwilio pryniannau diweddar (e.e. diffibrilwyr) i fewnbynnu costau a gwybodaeth berthnasol. Bydd y Clerc hefyd yn ymchwilio'r posibilrwydd o gyflogi gwerthuswr proffesiynol er mwyn asesu gwerth yr asedau.

**Is-bwyllgor:** Cyng. Anne Williams (Gerlan), Gwilym Owen, Mary Edwards (Canol) Walter Williams (Rachub)

Commented [HM1]:

**5.4 Balans o'r arian parod hanesyddol yn parhau heb ei dalu mewn i'r cyfrif Gyfredol**: Bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r banc cyn gynted â phosibl.

**5.5 Blaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r Cyngor heb eu ddogfennu mewn Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024/25.** Blwyddyn nesaf bydd yr Adroddiad Blynyddol yn fwy manwl.

**5.6 Methiant i gadarnhau cynlluniau ar gyfer gwario'r arian wrthgefn sylweddol**

**sydd wedi'i gronni.** Er gwaethaf y methiant a nodwyd, eglurwyd i'r archwilwyr fod benthyciad gwaith cyhoeddus wedi'i sicrhau ar gyfer prosiect Maes Parcio Gerlan, sy'n sicrhau cynllun ar gyfer gwario'r arian wrth gefn.

**5.7 Methiant i gyhoeddi'r dogfennau ar wefan y Cyngor:** Cadarnhaodd y clerc fod hyn wedi cael ei gwblhau erbyn hyn, gyda'r eithriad o'r Polisi Bioamrywiaeth sydd ar hyn o bryd yn cael ei weithio arno.

6. **Tariff Ynni a Thaliadau Sefydlog – Scottish Power:** Mae'r clerc wedi siarad â Octopus Energy ac wedi anfon dogfen at aelodau'r cyngor yn manylu'r dyfynbris a chymharu'r ddau gyflenwr. Mae'n amlwg y byddai Octopus Energy yn rhatach. Mae'r cyngor yn hapus i'r clerc symud ymlaen gyda'r trosglwyddiad dros yr Haf.

7. **Maes Parcio Gerlan:** Derbyniodd y clerc e-bost gan gyfreithiwr y cyngor yn fuan ar ôl anfon llythyr at gyfreithiwr perchnogion y tir, gan rhestru nifer y ceisiadau am gysylltiad. Cafodd Catrin Wager gyfarfod gyda Dewi Davies (cyfreithiwr y cyngor). Er bod Huw Redvers Jones (cyfreithiwr y tirfeddianwr) wedi anfon cynllun, nid yw'n addas ar gyfer y Gofrestrfa Tir. Mae'r Cyngor yn hapus i ariannu'r syrvey hwn.

   Awgrymir bod angen comisiynu rhywun i wneud y syrvey ein hunain, sydd yn ymwneud â ffiniau'r tir sy'n cael ei brynu. Awgrymodd Dewi Mr Siôn Lloyd Williams, syrfewr gyda Lloyd Williams & Hughes (Pwllheli), ond nid yw'r clerc wedi clywed yn ôl. Mae Catrin Wager wedi cysylltu â YGC ond heb glywed yn ôl – bydd y ddwy yn ceisio eto.

**8. Gohebiaeth**

Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Gorffenaf 2025'

**8.1 Llinos Jones: myfyriwr sy'n gwneud ymchwil teithio llesol yng Nghymru:** Penderfynwyd i bawb edrych ar yr arolwg ar eu pen eu hunain. Dyddiad cau: 24.07.2025

**8.2 Cyngor Gwynedd: Arolwg Hinsawdd a Natur:** penderfynwyd pawb edrych ar yr arolwg ar eu pen eu hunain. Dyddiad Cau: 31.07.2025

**8.3 Dyffryn Ogwen: Cais am Rhodd Ysgoloriaeth Cyngor Cymuned Bethesda:** Bydd y clerc yn ymchwilio i swm y rhodd a roddwyd y llynedd, ac mae'r cyngor yn caniatau yr un swm eleni.

**8.4 Gwahoddiad Seremoni Gwobrwyo:** Mae'r Cadeirydd, Catrin Wager, wedi cytuno i fynychu.

**8.5 Un Llais Cymru, Cyfansoddiad Newydd (i'w fabwysiadau):** Yn y cyfarfod blynyddol ym mis Mai, cadwyd Walter Williams a Huw Jones fel cynrychiolwyr Un Llais Cymru. Bydd Catrin Wager yn mynychu'r tro hwn, a Walter Williams yn eilydd. Awgrymwyd i bawb adolygu'r dogfennau'n annibynnol a chyflwyno syniadau i'r clerc neu Catrin Wager cyn y cyfarfod yma (3 Medi am 4yh).

**8.6 Cneifio Cyflym Dyffryn Ogwen: Cais am Rhodd:** Cytunwyd i'r Cyngor noddi £150.00.

**9. Taliadau**
Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| Talai | Manylion | Swm |
|---|---|---|
| Scottish Power | Nwy Gorffwysfan **(87 Stryd Fawr, Bangor, LL57 3AR)**<br><br>**10 Chwefror – 2 Gorffenaf**<br><br>Rhif Cyfrif: 16127171133 | £846.73 |
| Scottish Power | Trydan Goleuadau Dolig<br><br>**5 Mehefin – 7 Gorffenaf**<br><br>Rhif Cyfrif:54797551020 | £93.80 |

| Talai | Manylion | Swm |
|---|---|---|
| John Wyn Jones | Cyflog Gorffenaf 25 | £436.53 |
| Cyngor Gwynedd | YGC Gwaith Cynnal | £486.00 |
| Archwilio Cymru | Ffioedd Archwilio **2022-2023** | £275.00 |
| Colin Jackson | Torri Llwybrau | £2850 |
| Dwr Cymru | Cyflenwad Dwr Llys Dafydd<br>**28 Rhagfyr 24-30 Mehefin 25** | £33.80 |
| Dwr Cymru | Cyflenwad Dwr Gorffwysfan<br>**28 Rhagfyr 24-30 Mehefin 25** | £200.56 |

| | | |
|---|---|---|
| Thomas Shaw | Torri Glaswellt & Strimio | £840.00 |

**10. Crynodeb Llais Ogwan**

- Newid Cyflenwr Trydan / Cyngor Ynni ar gael yn Hwb Ogwen
- Torri Llwybrau
- Torri Coed Gerlan

**11. Unrhyw Mater Brys Arall**

**Dim**

**12. Cynllunio**

| Rhif Cais | Lleoliad | Disgrifiad | Penderfyniad |
|---|---|---|---|
| **C25/0328/13/RA** | Spar Stores, Stryd Fawr, Bethesda | Cais i ryddhau amod 3 (deunyddiau allanol) o ganiatâd cynllunio C23/0547/13/LL ar gyfer creu gofod manwerthu a chanolfan dreftadaeth gan ail-ddefnyddio adeilad SPAR a chodi estyniad tri llawr. | Amod(au) wedi rhyddhau yn llawn |
| **C25/0536/13/RA** | Former C L Jones Timber and Builders Merchants | Cais i ryddhau amod 4 (Cynllun Gwella Bioamrywiaeth) o ganiatâd cynllunio C25/0404/13/LL | Amod(au) wedi'u rhyddhau yn llawn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ar gyfer newid defnydd o "Sui Generis" i ddosbarth defnydd B8 "Storio a dosbarthu". | |
| **C23/0207/13/CR** | Kings Head, Stryd Fawr, Bethesda | Addasiadau mewnol | Ar y gweill |
| **C25/0422/13/LL** | 5 & 6 Llys Victoria, Stryd Fawr, Bethesda, Bangor, LL57 3AN | Gosod ffenestr gromen ar lethr de-orllewin y to | Caniatawyd gyda amodau |
| **C25/0449/13/DT** | 2 Stryd Fer, Gerlan, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3SU | Dymchwel estyniad ystafell fwyta presennol a chodi estyniad newydd i'r eiddo presennol | Caniatawyd gyda amodau |